

BARDD PLANT CYMRU

2023-2025

Pecyn Recriwtio



Mae Llenyddiaeth
Cymru yn chwilio am
Fardd Plant Cymru
2023-2025
i danio dychymyg ac
ysbrydoli plant Cymru

Wyt ti'n fardd sydd wrth dy fodd yn gweithio gyda phlant?

Wyt ti'n credu yng ngrym llenyddiaeth i ysbrydoli,
gwella a chyfoethogi bywydau – yn enwedig
bywydau pobl ifanc?

Wyt ti'n awyddus i ddathlu a chynrychioli ieuenctid
Cymru – eu dyheadau a'u hawliau – ar lwyfannau
cenedlaethol?

Yna rydyn ni am glywed gennyt ti!

Dyddiadau pwysig:

Dyddiad cau i ymgeisio:

12.00 hanner dydd, dydd Iau 16 Mawrth 2023

Cyfweliad / gweithdy peilot:

yr wythnos yn cychwyn 17 Ebrill 2023

Digwyddiad Cyhoeddi yn Eisteddfod yr Urdd 2023:

Union ddyddiad i'w gadarnhau


Caiff prosiect Bardd Plant Cymru ei redeg gan Llenyddiaeth Cymru gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru ac Urdd Gobaith Cymru.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES



Urdd



Cyflwyniad

Mae Bardd Plant Cymru yn rôl genedlaethol sy'n anelu i danio dychymyg ac yn ysbrydoli plant Cymru drwy farddoniaeth. Maent yn defnyddio llenyddiaeth er mwyn annog plant i fod yn greadigol, ac yn meithrin cariad at ysgrifennu creadigol, darllen a'r iaith Gymraeg. Bydd gweithdai'r prosiect yn magu hunan-hyder plant ac yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu, gan ymbweru plant Cymru gyfan i ysgrifennu am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Sefydlwyd cynllun Bardd Plant Cymru yn y flwyddyn 2000, ac ers hynny mae 17 bardd wedi ymgymryd â'r rôl. Mae Llenyddiaeth Cymru yn dewis bardd neu lenor Cymraeg newydd ar gyfer y rôl bob dwy flynedd, ac rydym yn chwilio am y Bardd Plant ar gyfer 2023-2025 ar hyn o bryd.

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan unigolion talentog ac angerddol sydd â gweledigaeth gref ar gyfer y rôl hon. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o ystod o gefndiroedd a phrofiadau, a byddwn yn ystyried egin feirdd a beirdd profiadol fel ei gilydd. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n rhannu ein gwerthoedd o gydraddoldeb a chynrychiolaeth, ac a fydd yn llysgennad dros hawliau plant i fod yn greadigol, i fynegi eu hunain ac i gael eu lleisiau wedi'u clywed, ac wrth gwrs i gael hwyl gyda geiriau.



Amcanion Prosiect Bardd Plant Cymru

Bydd y Bardd yn gweithio gyda phlant ledled Cymru a gyda grwpiau o blant o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Bydd Bardd Plant Cymru hefyd yn llysgennad i blant, gan hyrwyddo eu hawliau, eu diddordebau a'u bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn chwilio am geisiadau sy'n cyflwyno ffyrdd creadigol ac arloesol o gyflawni amcanion prosiect Bardd Plant Cymru. Rydym hefyd yn chwilio am geisiadau sy'n arddangos sut y bydd eu gweledigaeth ar gyfer y rôl yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llenyddiaeth Cymru. Rydym yn argymhell dy fod yn darllen [Cynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru \(2022-2025\)](#) cyn llunio dy gais.

Manylion y rôl



·Bydd y Bardd Plant Cymru nesaf yn cychwyn yn eu rôl yn haf 2023.

Cyhoeddir enw'r Bardd Plant newydd yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023.



Bydd y rôl yn para dwy flynedd, tan haf 2025.



Y ffi ar gyfer y gwaith yw £10,000 y flwyddyn, ynghyd â threuliau, a bydd y cynllun gwaith craidd yn cyfateb i tua 25 diwrnod o weithgaredd pob blwyddyn.

Mae'n debygol iawn y bydd cynigion am waith pellach yn dod i law. Byddai unrhyw waith ychwanegol yn cael ei gytundebu ar wahân.



Bydd natur y 25 diwrnod yn amrywio. Ambell dro, byddi yn cynnal gweithdai fel rhan o brosiect cenedlaethol mewn ysgolion neu gymunedau.

Dro arall, byddi yn gweithio ar gerdd comisiwn arbennig i ddatlu digwyddiad nodedig, neu yn ymweld â gwyliau celfyddydol.

Byddi yn teithio dros Gymru gyfan yn ystod y ddwy flynedd ar gyfer cyflawni gofynion y rôl fywiog a phrysur yma.



Mae Bardd Plant Cymru yn brosiect Cymraeg ei iaith sy'n aml yn gweithio ochr yn ochr â'i chwaer-brosiect Saesneg, Children's Laureate Wales.

Bydd y Children's Laureate Wales nesaf hefyd yn cychwyn ar eu gwaith yn yr haf, a bydd y rôl honno yn para am ddwy flynedd.



Y Bardd Plant Cymru presennol yw Casi Wyn, yr ail fardd ar bymtheg i ymgymryd â'r rôl.

Bydd cyfle i gysgodi a chydweithio yn agos gyda Casi yn ystod haf 2023. Mae'r holl gyn-feirdd plant i'w gweld ar wefan Llenyddiaeth Cymru.



Sut mae'r prosiect yn gweithio?

Ar gychwyn y prosiect, bydd Llenyddiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Bardd Plant newydd i'w helpu i roi ei stamp ei hun ar y rôl. Gan edrych ar ddiddordebau, arbenigedd a gweledigaeth y Bardd ochr yn ochr ag amcanion y rôl, blaenoriaethau Llenyddiaeth Cymru a gweddill partneriaid y cynllun, bydd Cynllun Gwaith manwl yn cael ei greu ar gyfer 25 diwrnod craidd y flwyddyn gyntaf. Fel rhan o'r Cynllun Gwaith, rydym yn awyddus i ddatblygu un prosiect mawr yn ystod y flwyddyn a fydd yn cael effaith pellgyrhaeddol ar grŵp penodol o blant Cymru. Byddwn yn gweithio'n agos â'r Bardd i gasglu a chyfathrebu effaith y rôl.

Blaenoriaeth y Bardd Plant fydd gwireddu'r Cynllun Gwaith. Ond mae rôl y Bardd Plant yn un boblogaidd ac uchel iawn ei phroffil, felly tu hwnt i 25 diwrnod craidd y cytundeb, disgwylir y bydd cryn dipyn o geisiadau ychwanegol am ymweliad yn dod i law oddi wrth ysgolion. Bydd gwahoddiadau hefyd yn cyrraedd gan sefydliadau amrywiol i weithio ar ymgyrchoedd cenedlaethol a chymryd rhan mewn prosiectau, ac mae'n debyg y bydd y wasg â diddordeb siarad â thi yn aml yn glŷn â materion yn ymwneud â chenedlaethau'r dyfodol. Cei drafod dy awydd i dderbyn rhagor o gomisiynau, a thrafod posibiliadau'r gwahoddiadau ychwanegol rhain gyda chydlynnydd y prosiect yn Llenyddiaeth Cymru.

Fel Bardd Plant Cymru, gall rhai o dy ddyletswyddau gynnwys y canlynol:

Cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda staff Llenyddiaeth Cymru i drefnu ymgyrch neu i drafod cynnydd dy brosiectau.

Ysgrifennu cerddi comisiwn ar amrywiaeth o themâu neu bynciau gwahanol.

Teithio ledled Cymru yn cynnal gweithdai barddoni gyda grwpiau o blant neu bobl ifanc.

Trefnu a chydlynu perfformiad gyda grŵp o blant ar gyfer digwyddiad mewn gŵyl.

·Gwaith trefnu manwl, dyfeisio gweithdai apelgar a sicrhau fod gwerthuso prosiectau yn digwydd.

Beirniadu cystadleuaeth ysgrifennu.

Siarad gyda'r wasg ynglŷn â dy rôl fel Bardd Plant Cymru ac/neu dy farn ar fater cyhoeddus perthnasol;

Cymryd rhan mewn digwyddiadau uchel eu proffil, er enghraifft siarad ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd neu'r Genedlaethol, neu mewn digwyddiadau yn y Senedd.

Ysgrifennu erthygl neu flog am dy waith neu am ymgyrch yr wyt ti'n angerddol drosto.



Byddi yn derbyn cymorth ac arweiniad gan gydlynnydd y prosiect, sef aelod o staff Llenyddiaeth Cymru, drwy gydol dy gyfnod fel Bardd Plant Cymru.

Bydd y cydlynnydd yn cefnogi dy amserlen, dy waith o ddydd i ddydd fel Bardd Plant Cymru, ac yn dy helpu i gynllunio a gwerthuso'r prosiectau fydd yn llunio'r Cynllun Gwaith.



Bydd Bardd Plant Cymru yn:

Llysgennad i blant, gan hyrwyddo hawliau a diddordebau cenedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys iechyd meddwl, cynrychiolaeth, addysg a'r argyfwng hinsawdd.

Llysgennad i Llenyddiaeth Cymru a'n blaenoriaethau, yn benodol dros ein cred fod gan lenyddiaeth y grym i wella a chyfoethogi bywydau.

Ymgysylltu â phlant ledled Cymru i'w hysbrydoli i fod yn greadigol ac i fynegi eu hunain drwy farddoniaeth;

Annog plant i gael hwyl gyda geiriau a barddoniaeth.

Hyrwyddo hawl pob plentyn i gael adrodd eu straeon a datgan barn.

Helpu i ddatblygu hunan-hyder, sgiliau llythrennedd a sgiliau chyfathrebu plant drwy greadigrwydd.

Hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

Cefnogi datblygiad y genhedlaeth nesaf o feirdd ac awduron ifanc.

Codi ymwybyddiaeth o farddoniaeth ymysg plant Cymru.

Ymgysylltu'n benodol â grwpiau o blant sydd wedi eu tangynrychioli, sy'n wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol.

Gofynion a rhinweddau pwysig ar gyfer y rôl

Bydd Bardd Plant Cymru 2023–2025:



yn gallu ymrwymo i o leiaf 25 diwrnod gwaith y flwyddyn, am ddwy flynedd rhwng haf 2023 a haf 2025, i weithio fel Bardd Plant Cymru



yn hyderus i, ac â phrofiad o, weithio gyda phlant a phobl ifanc 4 – 18 mlwydd oed



â phrofiad o arwain gweithdai creadigol i blant a phobl ifanc



â'r gallu i ysgrifennu cerddi addas ar gyfer plant a/neu bobl ifanc



yn siaradwr cyhoeddus hyderus, ac yn gyfathrebwr ysbrydoledig gyda phlant, gyda'r cyhoedd a'r wasg



gyda sgiliau gweinyddol ardderchog er mwyn sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn effeithlon ac yn llwyddiannus



yn byw yng Nghymru.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan feirdd profiadol a gan feirdd lled-newydd, ond byddwn yn edrych yn benodol am brofiad o arwain gweithdai gyda phlant a phobl ifanc. Bydd yr ymgeiswyr sydd yn cyrraedd y rhestr fer yn derbyn y cyfle i arwain gweithdy digidol i grŵp o blant fel rhan o'r broses gyfweld, a bydd y plant ac arsylwyr ar ran partneriaid cynllun Bardd Plant Cymru yn asesu'r gweithdy fel rhan o'r broses gyfweld.

Rydyn ni'n awyddus iawn i annog ceisiadau gan bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector greadigol, a gan ymgeiswyr sy'n profi gwahaniaethu oherwydd cefndir ethnig, anabledd, rhywedd neu brofiad o ddod o gefndir incwm isel. Am ragor o wybodaeth, darllena ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Os hoffet ymgeisio am y rôl hon, ond rwyf yn ansicr os oes profiad digonol gennyt, cysyllta â Mared Roberts am sgwrs anffurfiol: mared@llenyddiaethcymru.org.

Bydd penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus yn ddibynnol ar wiriad DBS manwl boddhaol cyn cychwyn yn y rôl.

Sut i wneud cais

I ymgeisio ar gyfer y rôl, anfona'r canlynol:

1 Llythyr (dwy dudalen ar y mwyaf) NEU fideo hyd at 5 munud o hyd yn cynnwys:

- Yr hyn hoffet ti ganolbwyntio arno neu ei gyflawni yn ystod dy ddwy flynedd yn y rôl. Efallai yr hoffet ti feddwl am un brif thema i fod yn ganolbwynt i'r gwaith, er enghraifft iechyd meddwl plant, cydraddoldeb neu'r argyfwng hinsawdd.
- Enghreifftiau o'r math o brosiectau mawr yr hoffet eu datblygu. Bydd cyfle i drafod y rhain yn fanylach yn y cyfweiliad.
- Pam wyt ti yn dymuno cyflawni'r rôl.
- Pam dy fod di'n ymgeisydd addas ar gyfer y rôl. Galli gyfeirio yma at enghreifftiau o brofiadau a gwaith blaenorol.

2 Gwaith Creadigol

Tair cerdd yr wyt wedi'u llunio ar gyfer plant a/neu bobl ifanc

3 Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Llenwa ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ddi-enw ([ar gael yma](#)).

Anfona dy lythyr neu fideo cais a dy waith creadigol at post@llenyddiaethcymru.org gyda Bardd Plant Cymru a'th enw yn y llinell pwnc.

Os oes gennyt unrhyw gwestiynau cyn ymgeisio, neu os wyt ti yn awyddus i drefnu sgwrs anffurfiol gydag aelod o dîm Llenyddiaeth Cymru, mae croeso i ti gysylltu dros e-bost â Mared Roberts: mared@llenyddiaethcymru.org neu ffonio un o swyddfeydd Llenyddiaeth Cymru: 01766 522 811 (Tŷ Newydd) neu 029 2047 2266 (Caerdydd).

**Anfona dy gais at Llenyddiaeth Cymru erbyn
12.00 hanner dydd, dydd Iau 16 Mawrth 2023.**



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd panel yn dethol rhestr fer, a Llenyddiaeth Cymru yn gwahodd y beirdd hynny i:

- Gyfweliad dros Zoom i drafod eu cais mewn mwy o fanylder.
- Gynnal gweithdy blasu tua 30 munud o hyd gyda grŵp o blant CA2 dros Zoom.

Bydd y cyfweiliad a'r gweithdy yn digwydd yn ystod yr wythnos yn cychwyn 17 Ebrill 2023.

Aelodau'r panel i ddethol Bardd Plant Cymru 2023 – 2025 yw Ciarán Eynon, Prifardd Eisteddfod yr Urdd 2022, Dafydd Lennon, bardd a cyflwynydd Cyw, S4C, Bethan Mai Jones, Pennaeth Adran Llyfrau Plant Cyngor Llyfrau Cymru a chydlynnydd prosiect Bardd Plant Cymru, Llenyddiaeth Cymru.

Bydd y rôl yn cael ei chynnig yn amodol ar wiriad DBS manwl boddhaol. Bydd y bardd yn cychwyn yn y rôl yn ystod haf 2023, gyda chyfle i gysgodi Casi Wyn, y Bardd Plant presennol tan yr hydref, pan bydd hi'n gorffen ei chyfnod. Gofynnwn i ti gadarnhau yn y cyfweiliad os wyt ar gael i ddod i seremoni cyhoeddi yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin (union ddyddiad i'w gadarnhau).



Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestedig sy'n gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth ewch i www.llenyddiaethcymru.org.